

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 27ain o Fehefin 2018 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Catrin Jones, Idris Jones, Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Berwyn Harding, Cyng. John Pughe Roberts, a Huw T Jones (Clerc)

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 23ain o Fai fel rhai cywir.

2. Materion yn codi .

- a) **Cwynion am y Post Brenhinol** – nid oedd ymateb pellach i law. Roedd angen atgoffa, ond rhoddwyd engreiffiau eraill – er bod angen mwy o fanylion cyn eu cyflwyno.
- b) **Arian a ddsrennir gan 'Ddol y Plwy'** – adroddwyd ymateb gan y Parch Roland Barnes. Addawodd Cyng. John P Roberts godi'r mater ymhellach gyda'r Eglwys, ac ymateb erbyn y cyfarfod nesaf.
- c) **Swyddfa Bost yn Neuadd Dinas** – adroddwyd ymateb oedd i law - a oedd yn gofyn am fwy o fanylion o ran dyddiadau/ amseroedd etc. Adroddwyd fod y sefyllfa wedi gwella ers i'r gwyn gael ei chodi, ac felly penderfynwyd gadael y mater am y tro.
- d) **Meddygfa Glanwymyn** – adroddwyd am yr ymatebion, gan gynnwys rhai gan Liz Saville Roberts a Dafydd Elis Thomas. Roedd yna gyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar gyfer Nos Lun yr 2ail o Orffennaf, a chytunodd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng Berwyn Harding a John P Roberts I fynychu. Hefyd byddai'r Clerc yn danfon yr holl ohebiaeth a gafodd I sylw'r holl gynghorwyr.
- e) **Cwynion nad oedd y bws ysgol yn troi fewn i'r arhosfan yn Minllyn** i gasglu y plant – roedd e-bost wedi ei ddanfon i Gyngor Gwynedd, ac roedd Cyng. J P Roberts wedi codi hyn gyda Lloyd's. Adroddwyd fod y mater wedi ei ddatrys, ond roedd rhaid cadw golwg ar y sefyllfa. Pwysleisiwyd mor bwysig yw diogelwch plant.
- f) Darllenwyd ymatebion i'r **holl faterion priffyrdd** ers y cyfarfod diwethaf.

3. Materion Cynllunio

Roedd 2 gais gerbron y Cyfarfod, sef;

NP5/74/452B – Adeiladu adeilad amaethyddol yn Troed y Foel, Llanymawddwy. (wedi ei ddanfon ar e-bost ymlaenllaw gan y Clerc ac wedi ymateb)

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais yma.

NP5/74/464B – Cais I ryddhau amod 2 (Cynllun Rheoli ac Adferiad Tirlunio) o Ganiatad Cynllunio NP5/74/464A dyddiedig 15/06/2017 ar dir yn Graig Wen, Dinas Mawddwy. (hwn hefyd wedi ei ddanfon ar e-bost ymlaenllaw gan y Clerc)

Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r cais.

Adroddwyd fod maes gwersylla yn datblygu ger Gwesty Dolbrodmaeth, ac ymholwyd am y sefyllfa gyda cynllunio. Adroddwyd fod Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol yn ymwybodol o'r sefyllfa a bod hyn yn cael ei ganiatau am 28 diwrnod y flwyddyn. Cyn trafod hyn, cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng. Iwan Ll Foulkes, Hedd Pugh a Berwyn Hughes.

4. Materion Cyllid.

Adroddodd y Clerc fod y cyfrifon am 2017 -18 wedi eu cyflwyno I'r Archwilwyr Mewnol sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Cadarnhaodd y Clerc eu bod wedi eu dychwelyd, a chyflwynwyd y gwaith/cyfrifon yn ffurfiol i sylw aelodau'r Cyngor Cymuned.

Cyfeiriwyd at yr holl ddatganiadau a'r papurau atodol, a chytunwyd fod y cyfan yn gyflawn i'w cyflwyno I gwmni BDO Southampton.

Cyfeiriwyd yn benodol at y rheolau sefydlog/ariannol, a phenderfynwyd yn ffurfiol i'w mabwysiadu eto eleni. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd y cod ymddygiad a oedd wedi ei ddosbarthu ar e-bost I'r holl Gynghorwyr. Hefyd nodwyd yr asesiad risg gan y Cyngor a oedd wedi ei ddosbarthu eisoes i'r Cynghorwyr.

Cadarnhawyd fod y sicrwydd yswiriant yn ddigonol a phriodol ar gyfer yr asedau sydd gan y Cyngor Cymuned.

Trafodwyd cofrestr buddiannau yr aelodau unigol o'r Cyngor ar gyfer 2017/18, a thrafodwyd fod yn bwysig i bawb eu diweddarau fel bo'r angen.

Tra'n trafod hyn, cadarnhawyd benodiad Uned Archwilio Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr mewnol I'r Cyngor Cymuned am flwyddyn arall.

5. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd yn llawn e-bost gan Alex Glanville ynglyn a'r bwriad i wneud cais cynllunio i drosi yr Eglwys yn lety gwyliau, - fel yr unig opsiwn i gadw'r adeilad – gyda'r bwriad i werthu'r adeilad yn y pen draw. Roeddynt yn gofyn am gydweithrediad a chytundeb y Cyngor Cymuned i sustem ddraenio, a soakaway i garthffosiaeth. Roedd yr e-bost yn dweud fod angen hyn cyn gwneud y cais cynllunio ffurfiol, a dosbarthwyd y cynllun oedd i law er sylw yr holl gynghorwyr. Yn dilyn trafodaeth, lle cyfeiriwyd at gyfarfod ar y safle y llynedd, nodwyd fod angen sicrwydd fod modd cadw yr allor yn y man presennol, a chael mynediad arwahan wedi ei greu, fel bod yna fan tawel i ymwelwyr fynd iddo pan yn ymweld a'r fynwent. Hefyd roedd angen sicrwydd y byddai'r fedyddfa yn cael ei symud at yr allor oherwydd yr hanes sy'n rhan annatod ohoni. Roedd yn bwysig hefyd cael sicrwydd gan Yr Eglwys yng Nghymru y byddent yn gwneud yn siwr y byddai y sawl sy'n prynu, yn cymryd cyfridoldeb am y to uwchben y cwbl.
Trafodwyd hefyd yr angen i ofyn i Alex Glanville drefnu cyfarfod cyhoeddus cyn hyn, fel bod yr ardal gyfan yn cael gwybod am fwriad yr Eglwys yng Nghymru.
- b) Adroddwyd am e-bost gan Sion Alun, Pennant, Llanymawddwy yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i roi grid gwartheg ar Bwlch y Groes. Gwelwyd

nad oedd unrhyw broblem efo hyn, ac roedd y Cyngor Cymuned yn fodlon cefnogi drwy lythyr.

- c) Nodwyd e-bost Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am eiddo i'w osod yn Aberangell, sef rhif 2, Heulfryn.
- d) Nodwyd lythyr gan Gyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am amserlen torri ochrau ffyrdd.
- e) Nodwyd lythyr gan y Parc Cenedlaethol yn rhoi rhybudd am ddyddiad cyfarfod blynyddol gyda Chynghorau Cymuned, sef Nos Fawrth 2ail Hydref yn Aberdyfi.
- f) Roedd Cyngor Mawddwy yn cael eu copio i mewn i ohebiaeth gan Iwan Jones, a oedd yn ymgyrchu am gael llwybr troed i'r fynwent yn Mallwyd ar yr A470. Yn y cyswllt yma, soniwyd am y posibilrwydd y byddai'r Rheithordy yn mynd ar werth, ac a oedd cyfle i drafod efo Alex Glanville yr adeg hynny.
- g) Nodwyd e-bost gan unigolyn yn cynnig gwasanaeth cyfieithu i Gynghorau Cymuned.

6. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd angen ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ynglyn a phroblem Japanese Knotweed ger Tai Cyngor Y Winllan – ac awgrymu a allai'r Cyngor drafod gyda phreswylwyr yr eiddo.
- b) Roedd sbwriel yn parhau yn broblem yn yr ardal, yn arbennig mewn gwahanol safleoedd o ben Bwlch Oerdrws i Dinas.
- c) Roedd gril dwr ar yr A470 rhwng Mynogau a Pentrewern wedi torri.
- d) Roedd arwydd 'Give Way' ger yr hen ysgol yn Minllyn wedi torri. Nodwyd hefyd fod graffiti yn parhau ar rai arwyddion ac yn fater o bryder.
- e) Roedd y chwyn Himalayan Balsam yn parahu yn broblem yng Nghwm Dugoed.
- f) Roedd y ffordd sy'n arwain at Braichllwyd 'wedi rhoi' mewn un safle penodol, sef ger y nant gyntaf ar ol troi fynny o'r briffordd A458.
- g) Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gael cymorth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu cae chwarae – ac roedd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd nad oedd unrhyw anhawster efo hyn.
- h) Nodwyd fod llawer o geir yn parcio ger y gofgolofn yn Minllyn, a oedd yn codi problem, ac y dylid cael gair gyda deiliaid y Ganolfan Arddio yn y lle cyntaf.
- i) Roedd angen gwneud cais am arwydd LLANYMAWDDWY wrth ddod i mewn i'r pentref o gyfeiriad Bwlch y Groes.
- j) Roedd angen torri gwair ar y llwybr o Dolybont i Tanybwllch – gan fod defnyddwyr cadair olwyn yn cael anhawster i'w ddefnyddio.
- k) Adroddwyd fod cais am am arian i gynnal a chadw llwybrau yn yr ardal am odeutu £200,000 wedi bod yn llwyddiannus, er bod angen arian cyfatebol.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 29ain o Awst 2018 yn NEUADD DINAS MAWDDWY AM 8.00 O'R GLOCH